Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 1448 (Cy. 312)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) (Diwygio) 2020

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017 ("Rheoliadau 2017") sy'n gweithredu'n bennaf Gyfarwyddeb 2011/92/EU Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 13 Rhagfyr 2011 (OJ Rhif L 26, 28.1.2012, t. 1) ar asesu effeithiau prosiectau cyhoeddus a phreifat penodol ar yr amgylchedd ("y Gyfarwyddeb AEA") mewn perthynas â dau fath o brosiect ym mharagraff 1 o Atodiad II i'r Gyfarwyddeb honno: prosiectau i ailstrwythuro daliadau tir gwledig a phrosiectau i ddefnyddio tir heb ei drin neu ardaloedd lled-naturiol at ddibenion amaethyddol dwys. Mae Rheoliadau 2017 yn gwneud darpariaeth ar gyfer y diwygiadau i'r Gyfarwyddeb AEA y rhoddwyd effaith iddynt gan Gyfarwyddeb 2014/52/EU Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 16 Ebrill 2014 (OJ Rhif L 124, 25.4.2014, t. 1).

Mae rheoliad 2 yn diwygio rheoliad 3 o Reoliadau 2017, sy'n nodi'r mathau o brosiectau a eithrir o gwmpas y Rheoliadau hynny. Mae'r diwygiad yn dileu'r esemptiad ar gyfer gwaith cyfyngedig ar dir comin yn rheoliad 3(2)(f) o Reoliadau 2017.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

2020 Rhif 1448 (Cy. 312)

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif (Cy. )

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) (Diwygio) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *4 Rhagfyr 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *8 Rhagfyr 2020* |
| *Yn dod i rym* | *31 Rhagfyr 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**) mewn perthynas â mesurau sy'n ymwneud â'r gofyniad am asesiad o'r effaith ar yr amgylchedd yn sgil prosiectau sy'n debygol o gael effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd(**2**).

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 2(2) o'r Ddeddf honno.

(**1**) 1972 p. 68. Diddymwyd Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ("Deddf 1972") gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) ("Deddf 2018") gan gael effaith o'r diwrnod ymadael. Mae "exit day" wedi ei ddiffinio yn adran 20 o Ddeddf 2018 fel 31 Ionawr 2020 am 11pm. Er gwaethaf y diddymiad hwnnw mae Deddf 1972 yn parhau i gael effaith gydag addasiadau hyd ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu, yn rhinwedd adran 1A o Ddeddf 2018. Mewnosodwyd adran 1A gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1) ("Deddf 2020"). Mae "IP completion day" wedi ei ddiffinio yn adran 1A fel 31 Rhagfyr 2020 am 11pm (yr ystyr a roddir yn adran 39 o Ddeddf 2020). Diwygiwyd adran 2(2) o Ddeddf 1972 yn flaenorol gan adran 27(1) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) a chan adran 3(3) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7) a Rhan 1 o'r Atodlen iddi.

(**2**) O.S. 2001/2555 mewn perthynas â'r gofyniad am asesiad o'r effaith ar yr amgylchedd yn sgil prosiectau sy'n debygol o gael effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd, sydd wedi ei ddirymu'n rhagolygol gan O.S. 2018/1011 o ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) (Diwygio) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 31 Rhagfyr 2020.

**Diwygio Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017**

**2.** Yn Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017(**1**), hepgorer rheoliad 3(2)(f).

*Lesley Griffiths*
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
4 Rhagfyr 2020

(**1**) O.S. 2017/565 (Cy. 134), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.